

BALLINGER, Syr JOHN (1860 - 1933), llyfrgellydd cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Enw: John Ballinger
Dyddiad geni: 1860
Dyddiad marw: 1933
Priod: Amy Ballinger (née Boughton)
Rhiant: Henry Ballinger
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llyfrgellydd cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd ym Mhontnewynydd, sir Fynwy, 12 Mai 1860, yn fab i Henry Ballinger; bu farw ym Mhenarlâg, Sir y Fflint, 8 Ionawr 1933.

Derbyniodd John Ballinger elfennau ei addysg mewn ysgol yn Canton, Caerdydd; yna, yn 15 oed, aeth yn gynorthwydd yn Llyfrgell Rydd Caerdydd, lle y bu am bum mlynedd nes mynd ei hunan yn llyfrgellydd Doncaster; dychwelodd yn 1884 i fod yn brif llyfrgellydd Caerdydd ac i lwyddo ymhen amser i'w gwneud yn un o brif lyfrgelloedd cyhoeddus y deyrnas. Yn 1908 fe'i penodwyd yn llyfrgellydd cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru a oedd i'w hagog yn Aberystwyth y dydd cyntaf o Ionawr 1909.

Fel llyfrgellydd a llyfryddwr yr enwogodd Ballinger ei hun. Er nad oedd yn Gymro o ran iaith, perthyn iddo'r clod o ffurfio llyfrgell Gymreig dda yng Nghaerdydd. Bu'n ffodus i gael gwyr fel **James 'Ifano' Jones** a'r **Athro Thomas Powel** i'w helpu a'i gyfarwyddo. Gyda chymorth **'Ifano' Jones** fe drefnodd i gyhoeddi yn 1898 gatalog o lyfrau Cymreig y llyfrgell; gwelir arwyddion o help gwerthfawr **'Ifano'** hefyd yn y pethau a gyhoeddwyd gan neu dros Ballinger ar y **Ficer Prichard** (1899), gwasg argraffu Trefecca (1905), a *The Bible in Wales* (1906).

Wedi i Ballinger gael y fath lwyddiant gyda'r gwaith o adeiladu adran Gymreig llyfrgell Caerdydd heb, ar yr un pryd, anghofio gofalu ei bod yn datblygu mewn moddion eraill hefyd, nid rhyfedd i'r llyfrgell newydd yn Aberystwyth lwyddo hefyd o dan ei arolygiaeth.

Yr oedd gan gyfoedion Ballinger ym myd llyfrgelloedd ym Mhrydain air da iddo fel llyfrgellydd a threfnydd; fe'i dewiswyd yn llywydd y Library Association yn 1922. Bu am gyfnod yn gadeirydd Bwrdd Gwasg Prifysgol Cymru, a drefnodd iddo olygu argraffiadau newydd o *Rhann o Psalmæ Dafydd Brophwyd ... 1603, Basiliikon Doron ... 1604, Y Llyfr Plygain ... 1612, Yr Ymarfer o Dduwioldeb ... 1630, a Carwr y Cymru ... 1631*. Paratôdd ragymadrodd i argraffiad newydd (1927) o'r *The history of the Gwydir family*; cyhoeddodd *Gleanings from a Printer's File* yn 1928, a *'Katheryn o Berain'* yn *Y Cymmrodor*, xl. Bu am gyfnod yn olygydd cylchgrawn Cymdeithas Lyfryddol Cymru. Dyfarnwyd iddo radd M.A. (er anrhydedd) Prifysgol Cymru yn 1909, a chafodd ei wneuthur yn C.B.E. yn 1920 ac yn farchog yn 1930. Yn 1932 derbyniodd fedal Anrhydeddus Gyndeithas y Cymmrodorion am ei wasanaeth i genedl y Cymry ym myd llyfryddiaeth a llenyddiaeth. Priododd yn 1888 Amy, merch Capten D. Boughton, Caerdydd, a bu iddynt dri mab ac un ferch.

Awdur

Syr **William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Who's who?, 1932

The Library Association Record, February 1933

W. Ll. Davies, *National Library of Wales, A Survey of its History, its Contents, and its Activities* (Aberystwyth 1937)

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i, 22-5

Archifau LIGC: NLW MS 9919-54: Sir John Ballinger Papers

Archifau LIGC: NLW MS 14653C

adnabyddiaeth bersonol

M. A. Bloomfield, *Sir John Ballinger: an annotated bibliography*

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Ballinger

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 94637280

Wikidata: Q6220486

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>



Davies, W. Ll., (1953). BALLINGER, Syr JOHN (1860 - 1933), llyfrgellydd cyntaf Llyfrgell Genedlaethol Cymru. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 12 Hyd 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BALL-JOH-1860>

Prifwrd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwedd yr
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government